Llywodraethwyr YGG Gellionnen Governors

Mae manylion isod am strwythur Corff Llywodraethu YGG Gellionnen, gan gynnwys enwau, categorïau, a thymor pob Llywodraethwr.

Below are details about the structure of YGG Gellionnen's Governing body, including the names, categories, and term of appointment for each Governor.

Enw / Name	Statws / Status	Cyfnod yn dechrau / Term of office begun	Cyfnod yn dod i ben / Term of office ends
Mrs. L. Udiawar	Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor	01.03.21	28.02.25
Mrs F. Gannon	Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor	11.06.19	10.06.23
Mrs J. Davies	Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor	01.02.23	31.01.27
Mrs B. Rees	Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor	12.01.22	11.01.26
Mrs N. Williams	Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor	01.02.23	31.01.27
Mrs H. Jones	Awdurdod Addysg Lleol / L.E.A.	26.02.19	27.02.23
Mr I. Tolley	Awdurdod Addysg Lleol / L.E.A.	24.07.19	25.07.23
Mrs C. Porter	Awdurdod Addysg Lleol / L.E.A.	23.03.20	22.03.24
Mrs R. Williams	Awdurdod Addysg Lleol / L.E.A.	19.06.20	18.06.24
Sedd wag / *Vacancy*	Cymunedol Awdurdod Llai / Community Minor Authority		
Mr Rh. Browning	Cymunedol / Community	10.04.19	09.04.23
Dr G. Ffrancon (Cadeirydd / Chair)	Cymunedol / Community	11.04.19	10.04.23
Mrs Ll. Williams	Cymunedol / Community	08.03.20	07.03.24
Sedd wag / *Vacancy*	Cymunedol / Community		
Mrs D. Latham	Athrawes / Teacher	14.11.19	13.11.23
Mrs J. Thomas	Athrawes / Teacher	06.09.19	05.09.23
Mrs A. Hewitt	Staff	25.10.22	24.10.26
Mr. K. Davies	Pennaeth / Headteacher	01.09.19	
Mr T. Jones	Clerc / Clerk		

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Clerc drwy'r ysgol.
The Chairperson of the Governors and/or the Clerk may be contacted through the school.
Ffon / Tel : 01792 845489
Ebost / E-mail : 6702232_ygggellionnen@hwbcymru.net

Adroddiad Blynyddol / Annual Report

Mae'r Corff Llywodraethu yn darparu Adroddiad Blynyddol ar weithgaredd a chynnydd yr ysgol.

The Governing Body provides an Annual Report on the school's activity and progress.

{Dolen i Adroddiad Blynyddol 2021-22}

Beth yw rôl Llywodraethwr Ysgol?

Mae bod yn Lywodraethwr Ysgol yn un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwch helpu'r ysgol ac mae cael corff llywodraethu da yn hanfodol i lwyddiant yr ysgol. Y Pennaeth sy'n rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd ond mae penderfyniadau'r Corff Llywodraethu yn cael effaith uniongyrchol ar addysg a lles plant yr ysgol ac yn gallu gwneud gwahaniaeth trwy wella safonau yn yr ysgol drwyddi draw.

Fel llywodraethwr ysgol, byddwch yn rhan o dîm. Dim ond corff llywodraethu llawn sydd â'r dyletswyddau a'r pwerau cyfreithiol, ac nid unigolion, i weithredu ar ran yr ysgol. Mae'r holl lywodraethwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb corfforaethol hwnnw. Mae llywodraethwyr yn penderfynu ar bethau allweddol, er enghraifft penodi Pennaeth yr Ysgol.

Mae rôl strategol hefyd gan y corff llywodraethu wrth gydweithio â'r pennaeth i:
- osod nodau ac amcanion yr ysgol,
- cytuno ar bolisïau, targedau a blaenoriaethau i gyflawni'r amcanion,
- monitro a gwerthuso'r nodau a'r amcanion er mwyn hyrwyddo cyflawniad o safon uchel.

Categorïau o Lywodraethwyr

Mae 6 categori o Lywodraethwr ar y Corff yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen, sef

Rhiant – unigolion wedi eu hethol i gynrychioli diddordebau rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

Awdurdod lleol - penodir y rhain gan Gyngor Sir Abertawe.

Cymunedol - gwahoddir y llywodraethwyr hyn gan lywodraethwyr eraill i ymuno â'r corff llywodraethu a chânt eu penodi gan y corff llywodraethu.

Athrawon - etholir y rhain gan staff addysgu yr ysgol.

Staff - etholir y rhain gan aelodau staff yr ysgol.
Cymunedol ychwanegol - enwebir y Llywodraethwr yma gan Gyngor Cymuned Clydach.

Gwybodaeth bwysig arall

- Rôl wirfoddol yw bod yn Lywodraethwr ysgol – nid oes tâl am y gwaith.
- Cewch eich penodi am dymor o 4 blynedd.
- Mae cyfarfodydd y Llywodraethwyr yn digwydd unwaith bob tymor ysgol ar ôl oriau gwaith arferol. Mae is-bwyllgorau'n cyfarfod yn weddol reolaidd hefyd.
- Does dim angen bod gennych brofiad o'r byd addysg i fod yn Lywodraethwr – rydym yn chwilio am sgiliau eraill gwerthfawr e.e. dealltwriaeth o reoli arian neu gyllidebu, y gyfraith, cynllunio strategol, dadanosddi data, iechyd a diogelwch, cefnogi pobl ifanc, gwaith cymunedol ayyb.
- Mae Cyngor Sir Abertawe yn darparu cyrsiau hyfforddiant rheolaidd i gefnogi Llywodraethwyr.

Os hoffech chi wybod mwy, mae gwybodaeth yma gan Gyngor Sir Abertawe:
https://www.abertawe.gov.uk/llywodraethwyrYsgolion

What is the role of a School Governor?

Being a School Governor is one of the most important ways you can help the school and having a good governing body is essential to the school's success. The Headteacher manages the school day to day but the Governing Body's decisions have a direct impact on the education and welfare of the school's children and can make a difference by improving standards throughout the school.

As a school governor, you will be part of a team. Only a full governing body has the legal duties and powers, and not individuals, to act on behalf of the school. All the governors share that corporate responsibility. Governors decide on key things, for example appointing the Head of School.

The governing body also has a strategic role in collaborating with the headteacher to:
- set the school's aims and objectives,
- agree on policies, targets and priorities to achieve the objectives,
- monitor and evaluate the aims and objectives in order to promote high quality achievement.

Categories of School Governors

There are 6 categories of Governor on the Governing Body of Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen:

Parent - individuals elected to represent the interests of the parents of pupils currently attending the school.

Local authority - these are appointed by Swansea County Council.

Community - these governors are invited by other governors to join the governing body and are appointed by the governing body.

Teachers - these are elected by the school's teaching staff.

Staff - these are elected by the school's staff members.

Additional community - this Governor is nominated by Clydach Community Council.

Other important information

- Being a school Governor is a voluntary role - there is no pay for the work.
- You will be appointed for a term of 4 years.
- Governors' meetings take place once every school term after normal working hours. Sub-committees also meet fairly regularly.
- You don't need to have experience of the world of education to be a Governor – we are looking for other valuable skills e.g. financial management or budgeting, law, strategic planning, data analysis, health and safety, supporting young people, community work etc.
- Swansea County Council provides regular training courses to support Governors.

If you would like to know more, there is further information available here from Swansea County Council: https://www.swansea.gov.uk/schoolgovernors